

## Y Greadigaeth

### Darlleniad: Salm 8

---

---

‘O Arglwydd, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!’ ... ‘Teilwng wyt ti, ein Harglwydd a’n Duw, i dderbyn y gogoniant a’r anrhydedd a’r gallu, oherwydd tydi a greodd bob peth, a thrwy dy ewyllys y daethant i fod ac y crewyd hwy.’ ... ‘Duw tragwyddol yw’r Arglwydd a greodd gyrrau’r ddaear; ni ddiffygia ac ni flina, ac y mae ei ddeall yn anchwiliadwy.’

‘Moliannwn di, O! Arglwydd,  
Wrth feddwl am dy waith  
Yn llunio bydoedd mawrion  
Y greadigaeth faith;’

Canmolwn di, O! Dduw hollalluog, am y greadigaeth gyfan.  
‘Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn’. Dengys dy waith dy dragwyddol allu a’th dduwdod, ac ‘y mae’r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw, a’r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo’.  
‘Oddi uchod y daw pob rhoi da a phob rhodd berffaith. Disgyn y maent oddi wrth Dad goleuadau’r nef, ac iddo ef ni pherthyn na chyfnewid na chysgod troadau’r sêr.’ Derbyniwn â diolch roddion y greadigaeth, gan sylweddoli fod pob dim felly yn ‘cael ei sancteiddio trwy Air Duw a gweddi’.

‘Am brydferthwch daear lawr,  
Am brydferthwch rhod y nen,  
Am y cariad rhad bob awr  
Sydd o’n cylch ac uwch ein pen,  
O! Dduw graslon, dygwn ni  
Aberth mawl i’th enw di.’

Ti a greodd ddyn ar dy ddelw dy hun, yn wryw ac yn fenyw, ac a’u bendithiodd hwy, gan orchymyn iddynt hwy lanw’r ddaear a’i

llywodraethu. Ti hefyd 'sy'n rhoi i bawb fywyd ac anadl a'r cwbl oll'. Ti a wnaeth 'o un dyn bob cenedl o ddynion, i breswyllo ar holl wyneb y ddaear, gan bennu cyfnodau ordeiniedig a therfynau eu preswylfod'. Ti, 'Arglwydd nef a daear', a'm creaiast i, ac a'm lluniaist 'yng nghroth fy mam'.

Cydnabyddwn fod pob peth wedi ei greu trwy Iesu Grist, 'ac er ei fwyn ef'. Ef yw'r Gair oedd 'yn y dechreuad gyda Duw', ac wrth enw Iesu fe blÿg 'pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear'. Ef yw 'cyntaf-anedig yr holl greadigaeth', ac ynddo ef y caiff yr holl greadigaeth ei dwyn i undod:

'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod -  
Bydd pob cyfandir is y rhod  
Yn eiddo Iesu mawr;  
A holl ynysoedd maith y môr  
Yn cyd-ddyrchafu mawl yr Iôr,  
Dros wyneb daear lawr.'

O! Arglwydd da, addewaist greu 'nefoedd newydd a daear newydd' 'lle bydd cyfiawnder yn cartrefu'. 'Darostyngwyd y greadigaeth i oferedd', ac mae arno angen 'ei rhyddhau o gaethiwed a llygredigaeth, a'i dwyn i ryddid a gogoniant plant Duw'. Mae'r 'holl greadigaeth yn ochneidio, ac mewn gwewyr drwyddi draw, hyd heddiw'. Mae'n disgwyl yn daer 'am i feibion Duw gael eu datguddio', a diolchwn i ti dy fod eisoes wedi dechrau ar y gwaith o greu drachefn. Molwn di am fod dyn yng Nghrist yn 'greadigaeth newydd', a'i fod yn gwisgo amdano 'y natur ddynol newydd sydd wedi ei chreu ar ddelw Duw, yn y cyfiawnder a'r sancteiddrwydd sy'n gweddu i'r gwirionedd'. Diolchwn hefyd y bydd yr Arglwydd Iesu Grist 'yn gweddnewid ein corff darostyngedig ni ac yn ei wneud yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef, trwy'r nerth sydd yn ei alluogi i ddwyn pob peth dan ei awdurdod'.

Ac yn awr, i ti, Brenin tragwyddoldeb, yr anfarwol a'r anweledig a'r unig Dduw, y byddo'r anrhydedd a'r gogoniant byth bythoedd!  
Amen.

*Peter Davies*